**Eitem:** 05

**Teitl: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2024/25**

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Cymeradwyo a Mabwysiadu. |
| **Amseru / Timing** | Brys. |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Argymhellir bod y Bwrdd yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2024/25 ac yn cymeradwyo a mabwysiadu'r ddogfennaeth, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| **Risg / Risk** | Mae potensial am risg i enw da os nad yw Llais yn bodloni ei rwymedigaethau a'i ofynion statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol a chyfrifon archwiliedig o fewn yr amserlenni gofynnol. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol wrth gymeradwyo'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl am Llais. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective/Amcan Rhaglen/ Programme objective** | Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â threfniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol Llais.<br><br>Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn benodol ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad, a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithredu a chyflawni pob agwedd ar waith Llais yn llwyddiannus ac felly, cyflawni pob amcan allweddol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid yw'r adroddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y maes hwn. Fodd bynnag, mae agweddau allweddol ar y meysydd hyn wedi'u cynnwys yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol drafft. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae’r papur hwn wedi’i gymeradwyo gan Alyson Thomas, Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg eisoes wedi trafod dogfennaeth yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon, a’r prosesau ar gyfer eu cwblhau a’u cymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, ac mewn cyfarfod arbennig ar 30 Medi 2025, lle penderfynwyd argymell i’r Bwrdd fabwysiadu’r ddogfennaeth. |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Richard Bevan, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu / Ysgrifennydd Bwrdd / Katie Holiday, Cyfarwyddwr Cyllid |
| **Dyddiad / Date** | 27 Hydref 2025 |

## Cefndir / Background

Fel corff cyhoeddus statudol a chorff hyd braich Llywodraeth Cymru, mae’n ofynnol i Llais gyhoeddi Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol.

Dyma’r ail Gyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol cynhwysfawr i’w cyhoeddi gan Llais, y cyntaf ohonynt ar gyfer 2023/24. Cyhoeddwyd cyfres gyfyngedig o Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022/2023. Mae’r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon arfaethedig ar gyfer 2024/2025 yn adlewyrchu gweithgareddau, perfformiad a llywodraethiant llawn Llais, fel sefydliad sefydledig a gweithredol.

## Manylion / Detail

Ar ran y Bwrdd, mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi:

- Ystyried y ddeddfwriaeth sy’n nodi’r Cyfrifon Blynyddol, yr Adroddiad Blynyddol, a’r gofynion archwilio.
- Trafod ailadroddiadau o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2024/25 yn ei gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, gan fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o broses a threfniadau 2023/2024, a rhoi sylwadau gweithredol ar y ddogfennaeth ddrafft rhwng cyfarfodydd.
- Mewn cyfarfod arbennig ar 30 Medi 2025, rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth fanwl i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2024/25, ac ystyriwyd atborth gan Archwilio Cymru ar ei archwiliad o’r ddogfennaeth. Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260), a gyflwynwyd ar wahân i’r Bwrdd.

O ganlyniad, cytunodd y pwyllgor i argymell i’r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llais ar gyfer 2024/2025.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'r Bwrdd i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu yn cynnwys:

- Adroddiad Perfformiad
- Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cynnwys:
- Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys:
    - Adroddiad y Cyfarwyddwyr
    - Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu
    - Datganiad Llywodraethu
- Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol
- Tystysgrif ac Adroddiad yr archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd.
- Datganiadau Ariannol:
    - Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
    - Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (y fantolen)
    - Datganiad o Lif Arian
    - Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwr
    - Nodiadau i'r cyfrifon.

Mae rheolwyr Llais a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ddiolchgar i Archwilio Cymru am y cymorth, y trefniadau gweithio agos a'r ddeialog drwy gydol archwiliad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol 2024/25.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Bwrdd:

- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn,
- Cadarnhau nodi cynnwys Adroddiad Archwilio Cyfrifon (gan gynnwys ISA 260) gan Archwilio Cymru, a ystyriwyd yn gynharach yn yr agenda,
- Nodi argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2024/25,
- Cymeradwyo llofnodi'r ddogfennaeth gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ac
- I'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd lofnodi'r ddogfennaeth a'r Llythyr Cyflwyno Achos.